UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Swyddog Maes y De-Orllewin (Rhan-amser 0.8)

## DISGRIFIAD PERSON

Mae UCAC yn chwilio am berson brwdfrydig a medrus iawn i ymuno â’n tîm gweithgar. Prif waith y **Swyddog Maes** yw darparu gwasanaeth i aelodau UCAC yn eu rhanbarth.

**Disgwylir i ymgeiswyr feddu ar y canlynol:**

### 1. Addysg / Hyfforddiant / Cymwysterau

- Gradd neu gymhwyster cyffelyb

### 2. Sgiliau / Gwybodaeth

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a’r Saesneg
- Sgiliau TGCh (Word, e-bost, *Teams/Zoom*, defnyddio’r we ar gyfer ymchwil)
- Sgiliau ymchwil
- Bydd gwybodaeth am brosesau byd addysg, Llywodraeth Leol, cyfraith cyflogaeth neu waith undebol yn fanteisiol

### 3. Profiad

Bydd profiad o weithio yn un o’r meysydd canlynol yn fanteisiol:

- byd addysg
- adnoddau dynol / cyfraith cyflogaeth
- gwaith undebol
- Llywodraeth Leol

### 4. Sgiliau personol

Mae gofynion y swydd yn addas i berson:

- trefnus a hunan-ddisgybledig sy’n gallu gweithio’n annibynnol, blaenoriaethu a rheoli amser yn dda
- sy’n gallu gweithio dan bwysau a dan bwysau amser
- sydd yn gallu deall cysyniadau anodd ag ymdrin ag achosion cymhleth
- sydd â sgiliau rhyngbersonol cryf:
    - yn gallu gwrando’n dda
    - yn gallu cydweithio’n dda iawn gydag eraill
    - yn hyderus i drafod gyda phobl ar bob lefel
    - yn gallu rhoi dadleuon gerbron a dwyn perswâd ar eraill mewn modd rhesymol
    - yn gallu ymdrin yn sensitif â phobl mewn sefyllfaoedd anodd

- sy’n gallu cadw cyfrinachedd
- sydd â’r gallu i feddwl yn greadigol
- sy’n ymateb yn bositif i gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

**5. Lleoliad y swydd**

Lleolir Prif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth a bydd gofyn i ddeiliad y swydd bresenoli ei hunan yno yn achlysurol. Mae teithio cyson yn rhan anatod o’r swydd ac o’r herwydd mae’r gallu i yrru a bod ym meddiant trwydded gyrru ddilys yn hanfodol. Fodd bynnag, bydd disgwyl i’r deiliad weithio o gartref am gyfran sylweddol o’i amser.